


Niwgwl/Penycwm

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER: NIWGWL - 1.8 milltir (2.9 km)

PENYCWM - 1.7 milltir (2.7 km)

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Niwgwl 411, *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

MWY O WYBODAETH: Mae'r daith hon yn bosib pan fydd y llanw'n isel yn unig.


MYNEDIAD I DRAETH PENYCWM TRWY'R CLOGFEINI AMDDIFFYN YR ARFORDIR.

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- Niwgwl
- Penycwm
- Lwybr Arfordir Sir Benfro
- Lwybr Cenedlaethol
- - - Lwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



Niwgwl/Penycwm

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Niwgwl 411, *Pâl Gwibio
400 (*tymhorol, galw a teithio).

Niwgwl

Pellter: 1.8 milltir (2.9 km)

Cyfeirnod map: SM846224

Cymeriad: Ymyl clogwyn, cwm
coediog, graddiannau, ychydig bach
o gerdded ar yr heol.

Mwy o wybodaeth: Mae'r daith
hon yn bosib pan fydd y llanw'n isel
yn unig. MYNEDIAD I DRAETH
PENYCWM TRWY'R CLOGFEINI
AMDDIFFYN YR ARFORDIR.

Dim sticlau. Giatiau mochyn, grisiau
ac arwynebau anwastad.

O faes parcio Niwgwl: cerddwch i
fyny'r palmant at Niwgwl, a
pharhewch i fyny'r tyle ar yr heol. O'r
arosfan bysys: cerddwch ar y palmant
ac yna ar yr heol i fyny'r tyle tuag at
Tyddewi. Chwiliwch am yr arwydd
llwybr troed yn y tro yn yr heol a
throwch i'r chwith, drws nesaf i'r
garej, trwy'r giât mochyn a dilynwch
llwybr yr Arfordir i fyny, yna i lawr.
Ewch yn syth ymlaen wrth y
mynegbost, trwy'r giât mochyn nesaf,
a dros y bont droed. Trowch i'r
chwith tuag at y traeth ac ar y traeth
i'r chwith eto tuag at Niwgwl. Am y
maes parcio: parhewch ar hyd y
traeth nes y gallwch ch weld baneri'r
maes parcio. Am yr arosfan bysys:
chiliwch am y bwi achub bywyd ar
ben y crib graean, a dringwch y crib
yn fuan wedi hynny. Chiliwch am
rodffa a grisiau i lawr i'r heol,
croeswch at y palmant a'r arosfan
bysys.

Penycwm

Pellter: 1.7 milltir (2.7 km)

Cyfeirnod map: SM844229

Cymeriad: Cwm Coediog,
golygfeydd o'r môr, ychydig bach o
gerdded ar yr heol.

Mwy o wybodaeth: Mae'r daith
hon yn bosib pan fydd y llanw'n isel
yn unig. MYNEDIAD I DRAETH
PENYCWM TRWY'R CLOGFEINI
AMDDIFFYN YR ARFORDIR.

Dim sticlau. 3 gât fochyn kissing,
grisiau.

Ewch ar y llwybr sydd wrth yr arosfan
fysiau i lawr at yr arfordir, a throwch
i'r dde wrth y gât i'r tyddyn. Wrth yr
arwyddbost, ewch i'r dde, drwy'r gât
fochyn, a thros y bompren. Trowch i'r
dde at y traeth, ac unwaith y byddwch
ar y traeth, trowch i'r chwith eto yn ôl
at Niwgwl. Ger Niwgwl, chwiliwch
am y bwi achub ar y cribyn graean,
a dringwch y banc cyfagos i gyrraedd
yr estyll a'r grisiau sy'n arwain i lawr
at yr heol. Croeswch y ffordd at y
palmant a throwch i'r chwith.
Unwaith y byddwch yn dringo'r rhiw,
chwiliwch am yr arwydd llwybr
cerdded ar y tro yn yr heol, ac yna
trowch i'r chwith i'r garej. Ewch
drwy'r gât fochyn, a dilyn y llwybr
arfordir i fyny i ddechrau, ac yna i
lawr. Ewch i'r dde wrth yr
arwyddbost, ac yna trowch i'r chwith
wrth y gyffordd T, a dilynwch y llwybr
yn ôl i Benycwm.